**HYSBYSIAD CYHOEDDUS**
**CYNGOR SIR CEREDIGION**
**DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847**
**(ADRAN 21)**
**GORYMDAITH BAND TREGAROC 2025**

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn uchod o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 er mwyn atal rhwystro, ac ati.

**YN GYMAINT AG Y BYDD** y rhannau o'r ffyrdd sy'n dwyn yr enwau A485 Heol yr Orsaf o'i chyffordd â'r B4343 hyd at y Clwb Rygbi, a'r Prif Sgwâr (tu fas i'r Talbot), Tregaron yn sir Ceredigion yn llawn o bobl ac yn agored i gael eu rhwystro, ac y bydd rhannau o heol Maesyrawel ac U1504 Tregaron ar gau hefyd, ar adegau penodol rhwng dydd Iau, 15 Mai a dydd Sul 18 Mai 2025 yn sgil gŵyl gerddorol TregaRoc,

mae Cyngor Sir Ceredigion, yn unol â'r pwerau a roddwyd gan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN A CHYFARWYDDO y bydd y rheoliadau canlynol yn cael eu parchu er mwyn atal y ffyrdd a nodwyd rhag cael eu rhwystro ar y diwrnodau a nodwyd:-

1. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a geir yn erthyglau 4 a 5, bydd y rhannau o'r ffyrdd sy'n dwyn yr enwau A485 Heol yr Orsaf o'i chyffordd â'r B4343 hyd at y Clwb Rygbi, Tregaron yn sir Ceredigion ar gau i draffig cerbydau, gan gynnwys beiciau, rhwng 12 ar ddydd Sadwrn 17 Mai 2025 a 9 y bore ar ddydd Sul 18 Mai 2025.
2. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a geir yn erthyglau 4 a 5, bydd y rhannau o'r ffyrdd sy'n dwyn yr enw Prif Sgwâr Tregaron (tu fas i'r Talbot) yn sir Ceredigion ar gau i draffig cerbydau, gan gynnwys beiciau, rhwng 8 o'r gloch ar nos Iau 15 Mai a 2 o'r gloch ar brynhawn Sul 18 Mai 2025.
3. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a geir yn erthyglau 4 a 5, bydd y rhannau o'r ffyrdd sy'n dwyn yr enw Maesyrawel ac U1504 Tregaron yn sir Ceredigion ar gau i draffig cerbydau, gan gynnwys beiciau, wrth eu cyffyrdd â'r A485 Heol yr Orsaf rhwng 12 o'r gloch ar ddydd Sadwrn 17 Mai 2025 a 9 o'r gloch ar fore Sul 18 Mai 2025.
4. Bydd darpariaethau erthyglau 1, 2 a 3 yn berthnasol dim ond yn ystod yr amserau a dim ond i'r graddau y bo'r cyfyngiadau hyn y cyfeirir atynt yn yr erthygl yn cael eu dynodi gan arwyddion traffig a stiwardiaid dynodedig.
5. Nid oes dim yn erthyglau 1, 2 a 3 o'r gorchymyn hwn a fydd yn berthnasol i gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir mewn perthynas â'r digwyddiad sydd wedi achosi'r gorchymyn hwn, neu unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu mewn iwnifform.
6. Y llwybr amgen ar gyfer osgoi'r A485 Heol yr Orsaf fydd mynd ar hyd yr C1098 Heol y Mart a'r B4343 yn ôl i Dregaron, pellter o oddeutu 600 o lathenni. Caniateir mynediad ar droed drwy'r adeg.

Y gosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn yw dirwy na fydd yn fwy na mil o bunnau.

Dyddiad: 1af o fis Mai 2025

Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron